**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol

16 Mehefin 2023

Annwyl Jenny,

Yn sgil ymchwiliad y Pwyllgor i brofiadau menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod am y datblygiadau diweddaraf o ran mynediad at Therapi Amnewidion Opioid amgen (Buvidal) yn CEF Styal a CEF Eastwood Park.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gefnogi gweithrediad cenedlaethol Buvidal mewn ymateb i bandemig Covid-19 ac mae'r gefnogaeth hon hefyd yn cynnwys y System Cyfiawnder Troseddol yma yng Nghymru. Math o buprenorphine sy'n cael ei roi drwy bigiad ac sy'n rhyddhau ei effaith yn araf yw Buvidal (saith diwrnod ac un mis), gan ddisodli'r angen i gymryd meddyginiaeth o dan oruchwyliaeth yn ddyddiol. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i weithredu'r opsiwn triniaeth hwn a bellach mae dros 1,400 o ddefnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru yn elwa ohono.

Gan nad yw Buvidal ar gael yn gyffredinol yn system triniaethau Lloegr, rydym hefyd yn cefnogi'n ariannol fenywod o Gymru sy'n bwrw dedfryd o garchar yn Lloegr, hyd nes bo GIG Lloegr yn cynnig y driniaeth hon.

Yn dilyn trafodaethau â thimau iechyd yn CEF Styal a CEF Eastwood Park, rwy'n falch o gadarnhau ein bod wedi anfon llythyrau grant i'r ddau sefydliad yn ddiweddar i ddarparu cyllid er mwyn i fenywod o Gymru gael Buvidal. Mae hyn yn golygu nad oes yna bellach rwystr i fenywod o Gymru, sy'n bwrw dedfryd o garchar yn y naill sefydliad neu'r llall, gael Buvidal yn yr un ffordd â dynion sy'n bwrw dedfryd o garchar yng Nghymru.

Mae'n beth eithriadol i Lywodraeth Cymru ariannu gofal iechyd yn Lloegr. Mae'r cyllid hwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i sicrhau bod y cymorth sydd ei angen ar fenywod sy'n bwrw dedfryd o garchar ar gael iddyn nhw. Bydd y cymorth ariannol hwn yn golygu y bydd modd darparu triniaeth barhaus hyd nes bo GIG Lloegr, sy'n gyfrifol am driniaethau yn y lleoliadau hyn, yn ariannu Buvidal.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth barhaus a'i gydnabyddiaeth o bwysigrwydd sicrhau bod menywod o Gymru sy'n eu cael eu hunain yn y System Cyfiawnder Troseddol yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Yn gywir

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**